



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Plas Cwmcynfelin Ltd

**Plas Cwmcynfelin
Clarach
Aberystwyth
SY23 3DN**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

23/5/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Plas Cwmcynfelin Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion â gofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Plas Cwmcynfelin Limited
Lleoedd cofrestredig	55
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn, a dywedodd unigolyn wrthym, *"Mae hwn yn lle gwych, gyda golygfeydd hyfryd a llawer yn digwydd"*. Mae arferion y gweithwyr gofal yn cael eu llywio gan gynlluniau cyfredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod y bobl mor annibynnol â phosibl. Mae'r holl staff yn adnabod y bobl yn dda a gwelsom lawer o ryngweithio difyr a brwdfrydig. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Mae pethau wedi'u trefnu'n dda felly gallwn dreulio amser gyda'r bobl"*.

Mae'r bobl yn mwynhau ystod eang o weithgareddau cymdeithasol o fewn y gwasanaeth a'r gerddi, ac maent yn gwerthfawrogi'r mewnbwn gan weithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad i'r trefi a'r cyfleusterau lleol, a dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Mae mynd yn ôl i'w cymunedau eto wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i'r trigolion"*.

Mae cynrychiolwyr y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn gadarnhaol amdano a dywedodd un ohonynt wrthym, *"Ar y cyfan mae'r cartref yn wych, a does gen i ddim cwynion"*. Mae'r unigolyn cyfrifol yn rheoli'r cartref ar hyn o bryd ac yn y broses o benodi rheolwr newydd. Mae'r bobl, aelodau o'u teuluoedd a'r staff yn gwerthfawrogi'r unigolyn cyfrifol, yn ymddiried ynddo ac mae ganddynt hyder ynddo.

Llesiant

Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar bethau sy'n bwysig i unigolion ac yn hysbysu'r gweithwyr gofal am yr hyn sy'n bwysig, megis ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn y gwasanaeth er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae gweithgareddau'n ffocws allweddol i'r gwasanaeth a dywedodd cynrychiolydd, *"mae'r staff yn wych, maen nhw bob amser yn ei hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac i ymuno â phethau"*.

Mae'r bobl yn cael eu parchu fel unigolion, ac mae'r rhyngweithio â'r tîm staff yn gyfeillgar a chalonogol. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth nad yw'n darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg, ond mae rhai aelodau o'r staff yn gallu cyfathrebu â'r bobl yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae trefniadau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, gan weithwyr gofal dawnus a gwybodus. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau i leisio pryderon. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen ac mae ganddynt ffydd yn yr unigolyn cyfrifol.

Mae'r amgylchedd â digon o le ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda; mae llawer o wahanol ardaloedd y gall y bobl gymdeithasu a gwneud pethau sy'n gwneud iddynt deimlo'n hapus ynddynt. Gall unigolion addurno'u hystafell unigol gydag eitemau personol. Mae'r tiroedd a'r gerddi yn hygyrch i'r bobl wneud y pethau y maen nhw'n eu mwynhau ynddynt, ac maent yn eu helpu i gadw mor iach a heini â phosibl.

Mae prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o brosesau archwilio mewnol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwneud â rheolaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac mae'r bobl a'r staff yn siarad ag ef am wella ansawdd y gwasanaeth. Cofnodir y wybodaeth hon yn yr adolygiadau ansawdd gofal chwe-misol, ond nid yw'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau adroddiadau ymweliad Rheoliad 73.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn gadarnhaol iawn am y gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y maent yn ei dderbyn. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn ddymunol ac yn gyfeillgar, a dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *“Maen nhw wedi bod yn wych ac wedi fy helpu i ail-feithrin fy hyder”*. Mae cynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth, a dywedodd un ohonynt, *“mae'r cartref yn ardderchog, ac mae'r staff yn wych”*. Mae gweithwyr gofal ymroddedig ac angerddol yn cefnogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl, a dywedodd un ohonynt wrthym *“Rwyf wrth fy modd; mae'n waith caled ond yn fuddiol tu hwnt”*. Cyn derbyn unigolyn, mae'r rheolwr yn asesu ystod o wybodaeth ganddo, ei gynrychiolwyr, a chan weithwyr proffesiynol allanol. Mae gan y gwasanaeth asesiadau nyrsio manwl ar gyfer sut mae'n darparu gofal a chymorth i'r bobl. Mae unigolion yn cwblhau dogfen o'r enw 'Fy Nghynllun' gyda'u teuluoedd cyn iddynt symud i'r gwasanaeth. Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth bwysig i'r staff am yr unigolyn, fel hanes ei fywyd, ei deulu, ei waith a'i amser hamdden. Mae'r staff nyrsio yn adolygu cynlluniau gyda'r bobl a'r gweithwyr gofal yn rheolaidd, fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a ddarparwyd a byddent yn elwa ar gynnwys gwybodaeth fanwl o safbwynt yr unigolyn am y gweithgareddau y mae'n cymryd rhan ynddynt. Ceir tystiolaeth dda o'r ffaith bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl, ac mae hyn wedi'i dogfennu. Dywedodd gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a oedd yn ymweld wrthym *“Mae'r cartref yn cael ei redeg yn dda, mae'n drefnus, ac mae ganddynt oll ddealltwriaeth dda iawn o'r hyn y mae pobl ei eisiau a'r hyn sy'n ystyrlon”*.

Yn gyffredinol, rhoddir meddyginiaeth yn unol â gweithdrefnau'r gwasanaeth. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad, gwnaethom nodi anghysondeb o ran faint o feddyginiaeth sy'n cael ei storio a faint sydd wedi'i chofnodi. Cynhaliodd y rheolwr archwiliad o'r feddyginiaeth gyda chynllun gweithredu clir a rhoddodd wybod i'r asiantaethau priodol am y mater.

Yn ystod y pandemig, bu'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae ymweliadau'n digwydd oddi mewn i'r gwasanaeth a'r tu allan iddo, yn unol ag asesiadau risg unigol.

Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol yn y gwasanaeth, y tiroedd a'r ardal leol. Mae triniwr gwallt, ffisiotherapydd ac aromatherapydd yn ymweld bob wythnos ac mae'r staff gofal yn gadarnhaol iawn am eu heffaith. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *“Mae'n gwneud gwahaniaeth mawr pan fo'r ffisiotherapydd yn ymweld â'r bobl”*. O ganlyniad i'r cyfyngiadau, mae'r bobl yn mwynhau cael mynediad i'r gymuned leol unwaith eto a dywedodd un ohonynt wrthym *“Es i i Aberystwyth am beint yr wythnos ddiwethaf ac roedd yn wych, alla' i ddim aros i fynd eto”*.

Mae lefelau digonol o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda iawn o hoff bethau'r unigolion ac maent yn sicrhau eu bod yn treulio

amser gyda'r bobl. Dywedodd un o'r gweithwyr wrthym, "*Rydyn ni'n gwneud y gorau o'r amser tawel ac yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n treulio amser yn sgwrsio â'r bobl*".

Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth wedi'i rannu'n ddau adeilad, y 'Prif Dŷ' a'r 'Cerbyty', ac mae'r ddwy ardal yn gartrefol, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn defnyddio'r tiroedd hygyrch a deniadol. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cefnogi'r bobl yn unol â'u hanghenion. Gall pobl ddefnyddio sawl ardal gymunol wahanol i gymdeithasu â'i gilydd, ac mae pawb i'w gweld wedi ymlacio ac yn gyfforddus. Mae'r bobl wedi rhoi eitemau personol yn eu hystafelloedd unigol megis eu lluniau, eu paentiadau, eu dodrefn, a'u modelau eu hunain, ac mae ganddynt deledu cebl. Wrth gael ei gynorthwyo i symud o amgylch y gerddi gan weithiwr gofal, dywedodd unigolyn wrthym *"Mae mor braf cael tiroedd mor brydferth ac rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ddod allan i'w mwynhau"*. Mae aelodau o deuluoedd yn canmol yr amgylchedd, a dywedodd un wrthym, *"Mae'r adeilad yn wych, mae'r lolfeydd yn hyfryd, ac mae'r ystafell fwyta wedi'i gosod yn hyfryd ar gyfer amser bwyd"*.

Mae materion cynnal a chadw yn cael eu datrys yn brydlon ac mae'r tîm domestig yn ymroddedig i gadw'r adeilad yn lân ac yn ffres. Mae rhaglen dreigl o ailaddurno ac uwchraddio ystafelloedd gwely, ystafelloedd cymunol ac ystafelloedd ymolchi. Meddai gweithiwr gofal, *"rydym yn diweddarau'r addurniadau bob amser ac mae bob amser yn arogl'i'n ffres yma"*. Cwblheir archwiliadau iechyd a diogelwch o'r eiddo yn rheolaidd. Mae'r cartref yn cydymffurfio â rheoliadau tân ac mae'r profion ar offer diogelwch tân yn gyfredol.

Mae'r staff arlwy'o'n gwybod beth yw hoff bethau a chasbethau'r bobl. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth gynllunio bwydlenni. Mae bwydlen sy'n treiglo bob pedair wythnos ac mae'r bobl yn gwneud dewisiadau amgen os ydynt yn dymuno. Mae amser bwyd yn ddigwyddiad cymdeithasol, a dywedodd rhywun wrthym, *"mae'r bwyd yn wych ac mae'r ystafell fwyta'n hyfryd"*. Wrth drafod y prydau bwyd, dywedodd aelod o deulu *"mae'r bwyd yn ardderchog ac mae paned o de a chacen ffres ar gael iddyn nhw ar gais"*.

Mae mesurau COVID-19 ychwanegol ar waith. Mae gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac mae gweithdrefn brofi drylwyr ar waith ar gyfer pob ymwelydd. Mae gan y darparwr bolisiâu a gweithdrefnau i reoli'r risg o haint. Mae arferion hylendid da i'w gweld ym mhob rhan o'r gwasanaeth, mae'r staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir ac yn dilyn canllawiau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yr unigolyn cyfrifol yw rheolwr cofrestredig y gwasanaeth ar hyn o bryd, ac mae'n trosglwyddo'i swydd i reolwr sydd â chymwysterau a phrofiad addas. Mae'r bobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn nodi bod diwylliant agored a chefnogol iawn yno. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwneud â'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, mae'n hawdd mynd ato ac yn adnabod y bobl a'u teuluoedd yn dda. Mae'r cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi pa mor hygyrch yw'r unigolyn cyfrifol, a dywedodd un ohonynt wrthym, *"Mae [yr unigolyn cyfrifol] yn wych, mae'n hawdd siarad ag ef, ac rydym bob amser yn sgwrsio pan fyddaf yn ymweld"*. Mae'r gweithwyr gofal yn gwerthfawrogi cymorth yr unigolyn cyfrifol, a dywedodd un ohonynt wrthym, *"Mae nawws deuluol yma, gallwn ni drafod unrhyw beth, ac rydyn ni bob amser yn cael cefnogaeth gan y rheolwyr"*. Mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro a gwella'r gwasanaeth drwy'r adolygiadau ansawdd gofal chwe-misol drwy ddefnyddio gwybodaeth o archwiliadau mewnol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y gwasanaeth bob dydd ond nid yw'n cwblhau adroddiadau Rheoliad 73. Dywedodd wrthym y bydd yn eu cwblhau bob chwarter a byddwn yn gwirio hyn yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r holl staff yn gadarnhaol ynghylch yr arweinyddiaeth yn y gwasanaeth, a dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Mae hwn yn lle gwych iawn i weithio ynddo, ni allaf ei feio"*. Mae'r bobl yn siarad yn agored â'r uwch aelodau o staff ac maent wedi meithrin perthynas gadarnhaol â nhw. Mae cynrychiolwyr yn gwybod sut i godi pryderon os oes angen, a dywedodd un ohonynt wrthym, *"Dim ond pethau da sydd gen i i'w dweud am y cartref, mae pawb yn ardderchog"*.

Yn gyffredinol, mae polisiâu a gweithdrefnau yn gyfredol ond mae angen adolygu a diweddarau'r polisi legionella. Byddwn yn gwirio hyn yn ystod yr arolygiad nesaf. Mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisiâu allweddol, ac maent yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o ran diogelu. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfarfodydd goruchwyllo un-i-un rheolaidd ac mae'r rhaglen arfarnu wedi ail-ddechrau yn dilyn y pandemig. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Mae goruchwyliaeth yn wych ond gallwn stopio a gofyn i'r nyrsys am gymorth pryd bynnag y mae ei angen arnom"*. Mae'r staff yn dilyn mesurau priodol ar gyfer atal a rheoli heintiau bob amser.

Mae gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, yr hawl i weithio, a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, ni wneir ail gais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ôl tair blynedd ym mhob achos. Cwblhaodd yr unigolyn cyfrifol yr ailgeisiadau nad oeddent wedi'u cwblhau yn ystod yr arolygiad.

Mae trefniadau sefydlu effeithiol a hyfforddiant parhaus yn sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r pandemig wedi cael effaith ar y gallu i ddiweddarau hyfforddiant yn barhaus, ond mae rhaglen hyfforddiant gloywi wedi dechrau. Mae'r gweithwyr gofal yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant, a dywedodd un ohonynt wrthym,

“Rwyf wedi gwneud fy e-ddysgu, hyfforddiant ar symud a thrin, dementia, marwolaeth a marw a diogelu, ac rwyf newydd ddechrau fy NVQ 3”.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod nifer digonol o staff gofal profiadol yn gweithio ar shifft er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal wedi meithrin perthnasau da gyda'r bobl ac yn deall eu hanghenion unigol.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn	Amherthnasol

	yn yr arolygiad hwn.	
--	----------------------	--

Dyddiad cyhoeddi 23/06/2022